


# YSGOL DAVID HUGHES

PORTRAETHWY  
YNYS MÔN LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287  
Ffacs: (01248) 713919  
e-bost:pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk



MENAI BRIDGE  
ISLE OF ANGLESEY LL59 5SS

Tel: (01248) 712287  
Fax: (01248) 713919  
e-mail:pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth/Headteacher  
H Emrys Williams BSc MEd

Gwefan/Website: [www.ysgoldavidhughes.org](http://www.ysgoldavidhughes.org)  
Twitter: @DavidHughesYDH

---

## BWLETIN RHINI PARENTS' BULLETIN

EBRILL/APRIL  
2015

## **RHAI DYDDIADAU PWYSIG**

### **SOME IMPORTANT DATES**

<b>Dydd Mawrth/Tuesday 21/04/2015</b>	<b>3.40pm</b>	Noson Rhieni <b>Blwyddyn 10.</b> <b>Year 10 Parents' Evening.</b>
<b>Dydd Mawrth/Tuesday 21/04/2015</b>	<b>4.00-5.30pm</b>	Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher.
<b>Dydd Mercher/Wednesday 29/04/2015 – Dydd Iau/Thursday 07/05/2015</b>		Cyfnod Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol National Literacy and Numeracy Tests – Blwyddyn/Year 7, 8 + 9
<b>Dydd Llun/Monday 04/05/2015</b>		Calan Mai – Gŵyl Banc May Day – Bank Holiday
<b>08/05/2015 – 24/06/2015</b>		Arholiadau allanol TGAU, AS ac A2. External examinations – GCSE, AS and A2 exams.
<b>Dydd Llun/Monday 18/05/2015</b>		Seremoni Cyflwyno Ffeil Cynnydd Blwyddyn 11 Year 11 Progress Files Presentation Ceremony
<b>25/05/2015 – 29/05/2015</b>		<b>Gwyliau Hanner Tymor</b> <b>Half Term Holidays</b>
<b>Dydd Mercher/Wednesday 24/06/2015</b>		Mabolgampau'r ysgol. School Sports Day.
<b>Dydd Mercher/Wednesday 24/06/2015</b>	<b>5.30pm</b>	Cyfarfod i rieni Blwyddyn 12 i drafod mynediad i addysg uwch. Meeting for Year 12 parents to discuss entry into higher education.
<b>29/06/2015 – 10/07/2015</b>		Cyfnod Profiad Gwaith Blwyddyn 10. Year 10 Work Experience period.
<b>13/07/2015 – 17/07/2015</b>		Cyfnod Profiad Gwaith Blwyddyn 12. Year 12 Work Experience period.
<b>Dydd Gwener/Friday 17/07/2015</b>		Yr ysgol yn cau am wyliau'r haf. School closes for the summer holidays.
<b>Dydd Iau/Thursday 13/08/2015</b>		Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau Lefel A/AS AS/A Level Examination Results Published
<b>Dydd Iau/Thursday 20/08/2015</b>		Cyhoeddi Canlyniadau Arholiadau TGAU GCSE Examinations Results Published

## ARHOLIADAU

### ARHOLIADAU ALLANOL

Mae myfyrwyr **Blynnyddoedd 10, 11, 12 a 13** yn brysur yn paratoi ar gyfer arholiadau allanol a fydd yn dechrau ym mis **Mai**. Bydd pob myfyrwr yn cael copi o'i amserlen bersonol a chyfarwyddiadau ynglŷn â'r arholiadau. Mae'n bwysig fod y myfyrwyr yn gyfarwydd â'u hamserlen a bod yr offer cywir (cyfrifiannell ayyb) ganddynt ar gyfer pob arholiad. Disgwylir presenoldeb llawn hyd at yr arholiadau neu fe fydd y myfyrwyr yn colli gwensi pwysig a gwybodaeth hanfodol ynglŷn â'r arholiadau. Os bydd eich mab/merch yn absennol ar fore'r arholiad oherwydd salwch, dylid cysylltu â'r ysgol cyn 8.30 am. Mae'n bwysig cyflwyno nodyn gan y meddyg yn egluro'r absenoldeb.

**Dymunwn yn dda iddynt yn ystod y cyfnod holl bwysig hwn.**

### BLWYDDYN 12 – ARHOLIADAU UG

Bydd myfyrwyr Blwyddyn 12 yn sefyll arholiadau allanol UG ym mis Mai/Mehefin. Caniateir iddynt aros gartref i astudio ar ôl **dydd Gwener, 8 Mai 2015** ond bydd disgwyl iddynt ddychwelyd i'w gwensi ar **ddydd Llun, 8 Mehefin 2015**. Bwriedir cychwyn ar y cyrsiau A2 yn syth ac felly mae presenoldeb llawn yn angenrheidiol os am ddychwelyd i'r ysgol y flwyddyn nesaf.

### FFÔN SYMUDOL A CHWARAEWYR CERDDORIAETH/MP3PERSONOL

Gofynnwn i chi ein helpu i sicrhau nad yw disgylion yn dod â'r eitemau hyn i'r ysgol, os gwelwch yn dda.

#### FFÔN SYMUDOL

Fel yr ydych yn ymwybodol, **ni ddylai disgylion ddod â ffonau symudol i'r ysgol**. Mae gan y byrddau arholi reolau llym a byddant yn dileu marciau'r disgyl os byddant yn cael eu dal gyda ffôn yn eu meddiant mewn arholiadau. Rydym hefyd wedi cael enghreifftiau o ffonau yn amharu ar wersi, disgylion yn tynnu lluniau gyda chamera ar y ffôn heb ganiatâd y person hwnnw, disgylion yn anfon negeseuon amharchus i'w gilydd ayyb.

**Ni fydd yr ysgol yn cymryd cyfrifoldeb am ffonau symudol, chwaraewyr MP3/iPods sydd wedi eu cymryd oddi ar ddisgyblion.**

Os bydd ar ddisgybl angen defnyddio ffôn yn ystod y dydd, dylai fynd i weld un o'r Dirprwy Benaethiaid.

#### CHWARAEWYR CERDDORIAETH PERSONOL/CAMERÂU

**Ni chaniateir i ddisgyblion ddod â chwaraewyr cerddoriaeth na chamerâu i'r ysgol.** Maent yn peri risg o safbwyt iechyd a diogelwch.

Os bydd disgyl yn gwrthod cadw at y rheol yna bydd rhaid i staff gadw'r peiriant a chysylltu â'r rhieni.

Diolch am eich cydweithrediad.

## EXAMINATIONS

### EXTERNAL EXAMINATIONS

**Years 10, 11, 12and13** students are busy preparing for external examinations, which begin in **May**. Every student will receive a personal timetable and instructions concerning the examinations. It is essential that students ensure that they are fully familiar with their timetable and that they have the correct equipment (calculator etc) for each exam. Full attendance is expected up to the examinations or students will miss important lessons and essential information concerning the examinations. If your son/daughter is absent on the morning of an exam due to illness, please contact the school before 8.30 am. A doctor's note explaining the absence must be presented.

**We wish them well during this very important time.**

### YEAR 12 – AS EXAMINATIONS

Year 12 students will be taking external AS examinations in May/June. They will be allowed to revise at home after **Friday, 8 May 2015** but will then be expected back in their lessons on **Monday, 8 June 2015**. Work on the A2 courses will begin straight away and so attendance is essential if a return to school is envisaged next year.

### MOBILE PHONES AND PERSONAL MUSIC/MP3PLAYERS

Please help us ensure that pupils do not bring these items to school.

#### MOBILE PHONES

As you are aware, **mobile phones should not be brought into school**. The examination boards have strict rules and pupils will not receive any marks for the paper or, in some cases, the whole series of examinations if they take a mobile phone into an examination room. We have also had a number of examples of phones disrupting lessons, pupils taking unauthorised photographs of others and the sending of malicious, disrespectful text messages etc. **The school takes no responsibility for mobile phones, mp3 players/iPods that have been confiscated from pupils.**

Any pupil requiring access to a phone during the day should see one of the Deputy Headteachers.

#### PERSONAL MUSIC PLAYERS/CAMERAS

**Pupils are not permitted to bring music/MP3 players or cameras into school.** These items present a health and safety risk.

If this rule is not adhered to then staff will confiscate the item and contact the parents.

Thank you for your co-operation.

## CINIO YSGOL AM DDIM/GRANT GWISG YSGOL

Rydym yn awyddus i sicrhau bod rhieni'n gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt, ee mae grantiau ar gael gan y Cyngor Sir i ddarparu cinio am ddim i rai disgylion ac i gynorthwyo rhieni i brynu gwisg ysgol.

### CINIO YSGOL AM DDIM

Efallai bod eich plentyn yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim os ydych yn derbyn un o'r isod:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am Waith (Seiliedig ar incwm)
- Credyd Treth Plant (yn unig)
- Gwarant Credyd Pensiwn

### GRANT GWISG YSGOL

Mae'n bosib fod gennych hawl i gael grant gwisg ysgol i'ch plentyn os ydych yn derbyn un o'r canlynol:

- Cymorth Incwm
- Lwfans Chwilio am Waith (Seiliedig ar Incwm)
- Lwfans Rhiant Gweddw
- Credyd Treth Plant (yn unig)

**Cofiwch fod angen adnewyddu eich cais yn flynyddol.** Os na fyddwch yn gwneud cais cyn diwedd y tymor, bydd disgwyl i chi dalu am wisg ysgol/cinio eich plentyn o ddechrau'r tymor.

Mae ffurflenni cais ar gael ym Mhrif Swyddfa'r ysgol.

## GWISG YSGOL

### BLYNYDDOEDD 7 - 11

Trowsus neu sgert ddu (at y penglin) heb unrhyw addurn ee ffrils, taslau ayyb. Crys chwys du gyda logo'r ysgol a chrys polo gwyn gyda logo'r ysgol. I ddisgyblion Blwyddyn 10/11 mae crys polo piws gyda logo'r ysgol yn opsiynol. Bydd angen cot ysgol dywyll yn ystod tywydd oer/gwlyb. Rydym yn gofyn i ddisgyblion wisgo **esgidiau du (footwear)**. **Ni chaniateir i ddisgyblion wisgo menyg o fewn adeilad yr ysgol.**

### BLYNYDDOEDD 12 - 13

Disgwylir i'r myfyrwyr wisgo trowsus neu sgert **blaen du**(at y penglin), crys gwyn gyda siwmper gwddw v ddu gyda logo Blwyddyn 12/13 Ysgol David Hughes a thei swyddogol Ysgol David Hughes. Rydym yn gofyn i fyfyrwyr wisgo **esgidiau du (footwear)**. Gofynnwn i fyfyrwyr gydymffurfio a'r wisg a sicrhau eu bod yn gosod esiampl dda i'r plant iau.

Gan ein bod yn teimlo ei bod hi'n bosibl cael nifer o amrywiadau oherwydd lliwiau'r ysgol dyma restr o'r pethau **na** fyddai'n dderbyniol. Efallai bydd angen ychwanegu at y rhestr ar sail profiad/ffasiwn.

- Jeans/Cords/Trowsus 'combat' neu 'cargo'/'leggings'
- Siwmper/cardigan amryliw/streipiau
- Trac wisg (top na gwaelod)
- Capiau o unrhyw fath
- Hoodies na thopiau fleece
- Siacedi ee denim neu liw golau
- Esgidiau uchel
- Sgert fer

Nid yw'r ysgol cyn cymeradwyo'r defnydd o golur, ond o'i wisgo disgwylir y defnydd ohono fod yn gynnill.

## FREE SCHOOL MEALS/SCHOOL UNIFORM GRANT

We would like to ensure that parents are able to claim the financial support available to them, eg the County Council provides grants for free school meals for some pupils and to help parents buy school uniform.

### FREE SCHOOL MEALS

Your child could be entitled to free school meals if you are in receipt of one of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Child Tax Credit (Only)
- Guarantee element of State Pension Credit.

### SCHOOL UNIFORM GRANT

You may be entitled to a grant towards your child's school uniform if you receive any of the following:

- Income Support
- Job Seekers Allowance (Income Based)
- Widowed Parent's Allowance
- Child Tax Credit (only)

**Please note – you need to renew your application annually.** If no application has been received from you by the end of term, you will be expected to pay for your child's school uniform/meals from the beginning of term.

Application forms for free meals are available from the school's Main Office.

## SCHOOL UNIFORM

### YEARS 7 - 11

Plain black skirt (knee length) or trousers, eg, without frills, tassels etc. Black sweatshirt with the school logo and white polo shirt with the school logo. For Years 10/11 pupils, the purple polo shirt with the school logo is optional. A 'dark' coloured coat will be necessary during wet and/or cold weather. We request that pupils wear **black footwear**. **Pupils are not permitted to wear gloves inside the school building.**

### YEARS 12 - 13

The students are asked to wear **plain** black trousers or skirts (knee length), white shirt, V-neck jumper with Year 12/13 Ysgol David Hughes logo and official Ysgol David Hughes tie. We request that students wear **black footwear**. We ask students to conform to this dress code and it is important that they set a good example to younger pupils.

Due to the nature of the school uniform we sometimes find a number of variations. Here is a list of items, which are **not** acceptable. The list is not exhaustive and we reserve the right to extend the list based on experience/fashion.

- Jeans/Cords/Combat or cargo trousers/leggings
- Jumpers/cardigans/multicoloured or striped tops
- Track suit (neither top nor bottom)
- Caps of any sort
- Hoodies or fleece tops
- Jackets eg denim, light coloured
- High-heeled shoes
- Short skirts

The school does not endorse the use of makeup in school, however, if it is worn it should be sparingly applied.

# ESGIDIAU YSGOL / SCHOOL SHOES

Mae'r rheolau ynghylch gwisg ysgol yn datgan yn glir y dylai'r holl ddisgyblion wisgo esgidiau **UNLLIW DU**. Ni chaniateir esgidiau sydd â streipiau, logos, neu unrhyw rannau gwyn neu liw arall. Gofynnir am eich cydweithrediad i sicrhau cysondeb ynghylch y mater hwn os gwelwch yn dda.

The school rules regarding uniform state clearly that the pupils should wear **BLACK FOOTWEAR**. Shoes with stripes, logos, laces or any other parts which are white or any other colour which is not black do not meet with this expectation. We would very much appreciate your co-operation regarding this matter.

## ADDAS / SUITABLE



## ANADDAS / NOT SUITABLE



## CERBYDAU MYFWRWYR BLWYDDYN 12/13

### Cerbydau Myfyrwyr:

Rhaid i fyfwrwyr wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i barcio ar dir yr ysgol.

Rhoddir cerdyn 'Hawl Parcio' (Parking Permit) a dylid arddangos y cerdyn yn ffenest flaan y car.

Bydd gan yr ysgol hawl i wrthod caniatâd neu i ddiddymu caniatâd os yw myfyrwyr yn gyrru mewn ffordd anghyfrifol ar dir yr ysgol.

### Cerbydau ar Safle'r Ysgol – Rheolau

Caniateir i fyfwrwyr Blwyddyn 12+13 barcio eu ceir/cerbydau yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden dan yr amodau isod:

1. Mae'n rhaid cofrestru rhif y cerbyd ac enw'r gyrrwr gyda'r ysgol os am barcio ar dir yr ysgol. Er mwyn sicrhau tocyn parcio bydd angen dangos trwydded yrru gyfredol, prawf o yswiriant, a Thystysgrif Cofrestru Cerbyd (V5C).
2. Gellir parcio yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden, yn unig, rhwng 8.00am a 5.00pm.
3. Ni chaniateir i unrhyw gerbyd symud o'r maes parcio rhwng 8.45am a 3.30pm, ag eithro cyfnodau 'cytundeb' neu mewn argyfwng. Bydd yn rhaid trafod eithriadau i'r rheol hwn gyda'r Pennaeth neu Bennaeth Blwyddyn.
4. Ni chaniateir gadael tir yr ysgol mewn cerbyd:-
  - yn ystod amser egwyl,
  - yn ystod amser cinio,
  - pan fydd y bysiau ar dir yr ysgol.
5. Mae'r ysgol yn safle risg uchel ac mae angen gyrru yn araf ac yn ofalus iawn ar y safle.

## STUDENT VEHICLES - YEAR 12/13

### Student Vehicles:

Students must make a written application to park on the school grounds.

A 'Parking Permit' will be given and this should be visible on the car windscreen.

The school has the right to refuse permission or to cancel permission if a student drives in an inappropriate manner on the school grounds.

### Vehicles on the School Grounds – Rules

Year 12+13 students will be permitted to park their vehicles in the Sports Centre Car Park provided the following conditions are met:-

1. The vehicle and designated driver must be registered with the school if parking is to be permitted. In order to ensure a parking permit the following documents will need to be seen – current driving licence, proof of insurance and a Vehicle Registration Certificate (V5C).
2. Vehicles can be parked in the Sports Centre Car Park, only, between 8.00am and 5.00pm.
3. No vehicle is to be moved from the car park between 8.45am and 3.30pm. The only exceptions will be agreed 'contract' periods or during an emergency. Any exceptions to this rule must be discussed with the Headteacher or Head of Year.
4. No vehicle is to leave the school grounds:-
  - during break time
  - during lunch time
  - when buses are on the school site.
5. The school site is a high risk area and vehicles must be driven slowly and very carefully whilst on site.

<b>LABELU EIDDO</b>	<b>LABELLING PROPERTY</b>
Gofynnwn i rieni sicrhau bod enwau eich plant ar eu gwisg ysgol, cotiau a bagiau.	Could parents please ensure that your child's name is clearly labelled on their school uniform, coat and bag.
Os yw eich plentyn wedi colli eiddo, a fydddech yn holi ym Mhrif Swyddfa'r ysgol, rhag ofn bod rhywun wedi dod o hyd i'r eitem ac wedi ei ddychwelyd.	If your child has lost any item of property, please check to see if it has been handed in at the Main Office.
Os na fydd eitemau coll wedi eu casglu erbyn diwedd Ebrill, yna bydd dim dewis ond cael gwared a'r eitemau.	If lost items are not collected by end of April, then they will be disposed of.

<b>SBWRIEL</b>	<b>LITTER</b>
Gofynnwn i ddisgyblion ein helpu i gadw safle'r ysgol yn daclus a diogel drwy beidio â gollwng sbwriel. Mae nifer o finiau wedi eu gosod o gwmpas yr ysgol.	We ask pupils to help us keep the school site tidy and safe by not throwing litter. A number of bins are provided around the school.
<b>AILGYLCHU</b>	<b>RECYCLING</b>
Er mwyn ceisio lleihau ar sbwriel a gwastraff, mae'r ysgol yn ceisio ailgylchu cymaint o bapur a photeli plastig â phosib. Ceir bocsys ailgylchu pwrrpasol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r swyddfeydd.	In order to reduce litter and waste, the school is making an effort to recycle paper and plastic bottles. Recycling boxes are located in the classrooms and offices for this purpose.

## **GADAEL TIR YR YSGOL**

Nid ydym yn caniatáu i ddisgyblion Blynnyddoedd 7-11 adael tir yr ysgol yn ystod yr egwyl foreol.  
Dim ond Blynnyddoedd 10/11/12/13 sy'n cael mynd allan amser cinio gyda chaniatâd rhieni.  
Nid oes caniatâd i'r disgyblion adael tir yr ysgol ar ôl i'r bysiau eu gollwng wrth yr adeilad yn y bore.

## **LEAVING THE SCHOOL GROUNDS**

Pupils in Years 7-11 are not allowed to leave the school grounds during the morning break.  
Only Year 10/11/12/13 pupils are allowed outside of the school grounds at lunch time and only if they have parental consent.  
Pupils do not have permission to leave the school grounds once they have been dropped off by the buses first thing in the morning.

## **YSGOLDDI-FWG**

Hoffwn eich atgoffa bod ardaloedd y tu mewn a thu allan yr ysgol yn rhai di-fwg. Ni chaniateir ysmygu ar fws mini'r ysgol nac ar y bysiau ysgol 'chwaith. Mae ysmygu yn y mannau hyn bellach yn erbyn y gyfraith a byddwn yn cysylltu â rhieni os bydd disgyblion yn cael eu dal yn ysmygu.

## **SMOKE-FREE SCHOOL**

We would like to remind you that smoking is prohibited within the school building and on the school grounds. Smoking is not permitted on the school minibus or school buses either. Smoking in these areas is now against the law. If pupils are caught smoking, the school will contact their parents.

## AMDDIFFYN RHAG YR HAUL

Yn y blynnyddoedd diwethaf mae achosion o ganser y croen wedi cynyddu'n gyson. Gormod o olau haul ar y croen yw prif achos y math hwn o ganser.

Yn ystod Tymor yr Haf, mae'n debygol y bydd eich plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ee mabolgampau'r ysgol a gweithgareddau awyr agored a drefnir gan wahanol adrannau. Rydym eisiau i'r disgylion fwynhau'r haul yn ddiogel, felly **gofynnwn i chi sicrhau bod gan eich plentyn amddiffyniad priodol rhag yr haul yn ystod tywydd poeth.**

Mae mwy o wybodaeth am amddiffyn rhag yr haul a chanser y croen ar gael ar wefan Cancer Research UK: [www.sunsmart.org.uk](http://www.sunsmart.org.uk)

## SUN PROTECTION

Cases of skin cancer have increased steadily over recent years. Over-exposure to sunlight is the main cause of this type of cancer.

During the Summer Term, it is likely that your child will be participating in outdoor activities, eg school sports day and outdoor activities organised by various departments.

We want the pupils to enjoy the sun safely and therefore ask you to **ensure that your child has suitable sun protection during hot weather.**

More information on sun protection and skin cancer is available on the Cancer Research UK website: [www.sunsmart.org.uk](http://www.sunsmart.org.uk)

## AROLYGWYR ARHOLIADAU / EXAM SUPERVISORS

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn cael ei gyflogi i gynorthwyo i arolygu arholiadau, tybed a fuasech garediced â chysylltu â Miss Clair Pugh. Telir cyflog oddeutu £10.50 yr awr i'r arolygwyr. Diolch yn fawr.

If anyone is interested in being employed to assist in supervising examinations, would you kindly contact Miss Clair Pugh. Supervisors will be paid approximately £10.50 an hour. Thank you.

## **YR ADRAN DECHNOLEG**

### **Taith Addysgiadol, Paris ac Eurodisney – Chwefror 2016**

Mae llythyrau eisoes wedi eu dosbarth ar gyfer y daith uchod i flynyddoedd 9 a 10 sydd yn dilyn (neu ar fin dilyn) cyrsiau, Arlwyd, Dylunio a Thechnoleg a Thecstiliau. Gobeithir cael y blaendal o £70 erbyn dydd Gwener, Mai 1af.

Mae'r adran yn gweld cyfle gwych yma i ddisgyblion gael profiad byd real o'r pynciau mewn cyd-destun cyffrous ac unigryw. Gobeithio y caiff y daith eich cefnogaeth.

Os bydd yna unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r trefniadau peidiwch ag oedi i gysylltu â'r ysgol.

### **Cyfrif Trydar yr Adran**

#### **@DT\_YDH**

Os ydych a chyfrif trydar, cofiwch ddilyn yr adran i weld gwaith y disgyblion ynghyd â chyhoeddiadau perthnasol am waith cwrs, teithiau addysgol ac ati.

## **TECHNOLOGY DEPARTMENT**

### **Educational Visit, Paris and Eurodisney – February 2016**

Letters have already been distributed with regards to the above visit to Years 9 and 10 who are following (or about to commence) courses in Catering, Design and Technology and Textiles. The deposit of £70 is due Friday, 1<sup>st</sup> May.

The department is encouraging pupils to take advantage of this opportunity to experience the subjects in a real environment and in an exciting and unique context. We hope that this visit is supported. Should you have any questions regarding the arrangements, please do not hesitate to contact the school.

### **Department's Twitter Account**

#### **@DT\_YDH**

If you have a twitter account, remember you can follow the department to see the pupils' work and relevant announcements about coursework, educational visits etc

# TYMOR Y GWANWYN / SPRING TERM

## 2014/2015

### DIGWYDDIADAU / EVENTS

<b>Gwerthwyd addurniadau Nadolig yr NSPCC gan gasglu dros £70 gan fyfyrwyr Blwyddyn 12+13.</b>	<b>NSPCC</b> Christmas decorations were sold by Year 12+13 students and over £70 was raised.
<b>Cafwyd sesiynau ar ddiogelwch ffordd, cyffuriau ac alcohol i fyfyrwyr Blwyddyn 12.</b>	<b>Sessions on road safety, drugs and alcohol</b> were held for Year 12 students.
<b>Cynhaliodd Anita Daimond, Cadw/ Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd sesiwn ar dreftadaeth gyda myfyrwyr Blwyddyn 12.</b>	<b>Anita Daimond, Cadw/Gwynedd Archaeological Trust</b> held sessions on <b>heritage</b> for Year 12 students.
<b>Cwblhaodd nifer o ddisgyblion y prosiect Profi dan adain Pontio, ac enillodd Cole Whittle gwobr Ysbryd Profi.</b>	<b>A</b> number of pupils completed the <b>Profi</b> project ran by Pontio, and Cole Whittle won the Spirit of Profi Award.
<b>Trefnwyd ocsiwn addewidion ac adloniant gan fyfyrwyr Blwyddyn 12 i gefnogi Apêl Awyr Las.</b> Codwyd dros £1200.	<b>An auction of promises and entertainment was arranged by Year 12 students to raise funds for the Blue Sky Appeal.</b> Over £1200 was raised.
<b>Gwerthwyd cacennau i hybu Masnach Deg gan gasglu dros £129 gan grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12.</b>	<b>Cakes</b> were sold by some Year 12 students in aid of the <b>Fairtrade Foundation</b> and over £129 was raised.
<b>Bu rai myfyrwyr yn darllen Papur Menai i'r deillion.</b>	Some students have been reading <b>Papur Menai</b> to the blind.
<b>Daeth Mr Keifer Jones, myfyriwr o Brifysgol Bangor i gynnal gweithdy lleisiol gyda rai disgyblion yn yr adran Gerdd.</b>	<b>Mr Keifer Jones</b> , a student from Bangor University held a <b>vocal workshop</b> with some pupils in the Music department.
<b>Mae rhai bechgyn Blwyddyn 7 + 8 yn cymryd rhan yn y rhaglen 'Premier League Reading Stars Cymru' i hybu a gwella'u darllen.</b>	Some Year 7+8 boys are taking part in the ' <b>Premier League Reading Stars Cymru</b> ' programme to promote and improve reading.
<b>Mae unigolion a thimau'r ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn sawl gêm/cystadleuaeth, e.e. Cystadleuaeth Draws Gwlad Ynyd Môn, Cystadleuaeth Draws Gwlad Eryri, Pencampwriaeth Draws Gwlad Ysgolion Cymru, Twrnament Hoci Môn/Arfon, Twrnament Pêl-rwyd Môn, Twrnament Pêl-rwyd Eryri, Athletau Dan Do Môn a Thwrnament Pêl-fasged.</b>	<b>Individuals and school teams</b> have been participating in a number of games/competitions, eg Anglesey Cross Country Competition, Eryri Cross Country Competition, Welsh Cross Country Championship, Anglesey/Arfon Hockey Tournament, Anglesey Netball Tournament, Eryri Netball Tournament, Anglesey Indoor Athletics and a Basketball Tournament.
<b>Cynhaliwyd nosweithiau rhieni ar gyfer Blwyddyn 9, 11, 12 ac 13.</b>	<b>Parents' Evenings</b> were held for Years 9, 11, 12 and 13.
<b>Cynhaliwyd Ffair Yrfaodd Gymraeg i ddisgyblion Blwyddyn 9 yr ysgol, ynghyd a disgyblion o Ysgol Uwchradd Bodedern ac Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, yn neuadd yr ysgol.</b>	<b>A Welsh Options Fair</b> was held in the school hall for <b>Year 9</b> pupils, as well as pupils from Ysgol Uwchradd Bodedern and Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.
<b>Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant dalgylch ar gyfer staff ar 13 Chwefror 2015.</b>	<b>13</b> February 2015 was a <b>catchment training day</b> for staff.
<b>Cynhaliwyd arholiadau mewnol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10.</b>	<b>Year 10</b> pupils sat <b>internal examinations</b> .
<b>Bu rai myfyrwyr gymryd rhan mewn prosiect gyda'r BBC ar ddarlledu yng Nghymru. Hefyd, bu 15 o ddisgyblion Blwyddyn 12/13 yn adolygu rhaglenni teledu a radio penodedig gyda dwsin o gynrychiolwyr o'r BBC.</b>	Some students took part in a project with the <b>BBC</b> on broadcasting in Wales. Also, 15 of Year 12/13 pupils have been reviewing tv and radio programmes with 12 representatives from the BBC.
<b>Cafwyd cyflwyniad ar faterion ariannol i Flwyddyn 13 gan Phil Lynes o Gyllid Myfyrwyr Cymru (Student Finance Wales).</b>	<b>A presentation</b> on financial matters were given to Year 13 by Phil Lynes from <b>Student Finance Wales</b> .
<b>Mae pedair o wirfoddolwyr o Flwyddyn 13 wedi bod yn cynorthwyo gyda'r clwb darllen trwy'r tymor.</b>	There are four volunteers from Year 13 that have been helping with the <b>reading club</b> throughout the term.
<b>Mae grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 12 yn cynorthwyo gyda Clwb Gateway, Porthaethwy bob bore Sadwrn.</b>	<b>A group</b> of Year 12 pupils have been helping with the <b>Gateway Club</b> , Menai Bridge every Saturday morning.

<p><b>Daeth nifer o siaradwyr gwadd i'r ysgol , ee</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Mrs Awen Dodd, Swyddog Fforwm Ieuenctid 'Llais Ni'</li> <li>· PC Brian Jones, Swyddog Cyswllt Ysgolion</li> </ul>	<p><b>A number of guest speakers</b> visited the school, eg</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Mrs Awen Dodd, 'Llais Ni' Youth Forum Officer</li> <li>· PC Brian Jones, Schools Liaison officer</li> </ul>
<p><b>Cynhaliwyd cyfarfod gyda rhieni disgylion Blwyddyn 9 i rannu gwybodaeth am <b>Opsiynau 14+</b>. Hefyd, trefnwyd noson ar gyfer rhieni disgylion Blwyddyn 11 i rannu gwybodaeth am <b>ddewisiadau 16+</b>.</b></p>	<p><b>A</b> meeting was held at the school for parents of Year 9 pupils, in order to share information about <b>Post 14 Options</b>. Also, a meeting was also arranged for the parents of pupils in Year 11, in order to share information about <b>Post16 Options</b>.</p>
<p><b>Bu rhai disgylion <b>Blwyddyn 9</b> yn ymweld â Choleg Menai, safle Llangefni a Bangor ar gyfer <b>sesiynau blasu cyrsiau galwedigaethol Lefel 1/2</b>.</b></p>	<p><b>Some Year 9</b> pupils visited Coleg Menai, Llangefni and Bangor sites for <b>Level 1/2 Vocational Courses Taster Sessions</b>.</p>
<p><b>Cynhaliwyd 'Ffair Bynciau'</b> i ddisgylion Blwyddyn 11 yng Nghanolfan y 6ed gyda disgylion presennol y Chweched yn rhannu gwybodaeth o'u profiadau fel rhan o weithgareddau '<b>Wythnos Dychwelyd i'r 6ed</b>'.</p>	<p><b>An 'Options Fair'</b> was held for Year 11 pupils in the 6th Form centre with existing 6th Form students sharing information and their experiences as part of the '<b>Return to the 6th Form week</b>' activities.</p>
<p><b>Cynhaliwyd cyfarfodydd <b>Cynghorau Blwyddyn ac Ysgol Gyfan</b> y disgylion yn ystod Tymor y Gwanwyn.</b></p>	<p><b>Meetings of the pupils' Year Councils and Whole School Councils</b> were held during the Spring Term.</p>
<p><b>Cynhaliwyd sesiwn 'STEM Family Challenge'</b> i rai disgylion Blwyddyn 9 a'u teuluoedd.</p>	<p><b>A 'STEM Family Challenge'</b> session was held for some Year 9 pupils and their families.</p>
<p><b>Bu'r ail sesiwn o Ddiwrnod Mathemateg MATh Cynradd</b> gael ei gynnal yn ystod y tymor yn yr ysgol, gyda 50 o ddisgylion Blwyddyn 6 cynradd y dalgylch yn mynychu.</p>	<p><b>The second session of Primary MAT Mathematics Day</b> was held during this term in the school, with 50 Year 6 catchment pupils attending.</p>
<p><b>Gwisgodd nifer o fyfyrwyr Blwyddyn 13 wisg ffansi i ddathlu Diwrnod y Llyfr.</b></p>	<p><b>A number of Year 13 students</b> dressed up in character to celebrate <b>World Book Day</b>.</p>
<p><b>Daeth ymwelydd o Bacistan i son wrth Flwyddyn 12 am Fasnach Deg.</b></p>	<p><b>A visitor from Pakistan</b> gave a talk on <b>Fairtrade</b> to Year 12.</p>
<p><b>Dosbarthwyd adroddiadau</b> disgylion Blynnyddoedd 9-13 yn ystod y tymor, er mwyn darparu gwybodaeth i rieni a disgylion, ac i alluogi'r ysgol i ymateb i unrhyw arwyddion o dangyflawni.</p>	<p><b>Pupils in Years 9-13 received a report</b> during this term, to provide information for parents and pupils and to enable the school to respond to any signs of underachievement.</p>
<p><b>Cynhaliwyd arholiadau allanol</b> amrywiol yn ystod y tymor ee modiwlau Lefel A/AS, Lefel Mynediad, Arlwyd TGau, Celf TGau, arholiadau ymarferol Cerdd a Drama ac arholiadau llafar.</p>	<p><b>Various external examinations</b> were held during this term, eg A/AS Level modules, Entry Level, GCSE Catering, GCSE Art, Music and Drama practical exams and oral exams.</p>
<p><b>Mae clwb astudio'n cael ei gynnal ar ôl ysgol ar gyfer disgylion Blwyddyn 11 sy'n dymuno gweithio ar eu gwaith cwrs neu waith cartref a pharatoi ar gyfer eu harholiadau.</b></p>	<p><b>Some pupils in Year 11</b> have been attending an after-school <b>study club</b> where they can work on coursework or homework and prepare for their exams.</p>
<p><b>Mae grŵp o ddarpar a thrawon o Brifysgol Bangor wedi bod yn treulio eu cyfnod <b>ymarfer dysgu</b> gyda ni.</b></p>	<p><b>A group of trainee teachers</b> from Bangor University have begun their <b>teaching practice</b> with us.</p>
<p><b>Mae Clwb Codio (IT)</b> wedi'i ffurfio yn ddiweddar ac yn cyfarfod bob pnawn Mawrth ar ôl ysgol i ddisgylion Blwyddyn 7-13.</p>	<p><b>A Coding (IT) Club</b> has been recently formed for Years 7-13 pupils and meets every Tuesday afternoon after school.</p>
<p><b>Cynhaliwyd sesiwn anffurfiol cwestiwn ac ateb i Flwyddyn 12</b> gyda PC Brian Jones.</p>	<p><b>An informal question and answer session</b> was held by PC Brian Jones for Year 12.</p>
<p><b>Bu rai myfyrwyr Blwyddyn 12 yn beirniadu yn Eisteddfod Ysgol Y Borth.</b></p>	<p><b>Some Year 12 students</b> judged at Ysgol y Borth's Eisteddfod.</p>
<p><b>Cynhaliwyd gwasanaethau <b>Gŵyl Ddewi</b></b> i ddisgylion Blwyddyn 7+8. Fel rhan o'r dathliadau, bu disgylion dalu dirwy am wisgo top coch, gwerthwyd cacennau amser eggwyl, cynhaliwyd gig amser cinio a bu myfyrwyr o Flynyddoedd 12 a 13 yn gwerthu cennin Pedr yn yr ysgol, ar ran elusen cancr Marie Curie.</p>	<p><b>St David's Day</b> service was held for pupils in Years 7+8. As part of the celebrations, pupils could pay a fine for wearing a red top, cakes were sold break time, a gig was held lunch time and Year 12 and 13 students sold daffodils in school, on behalf of Marie Curie Cancer Charity.</p>
<p><b>Cynhaliwyd cyfarfodydd Fforwm 'Llais Ni'</b> yn ystod Tymor y Gwanwyn.</p>	<p><b>Meetings of the 'Llais Ni' Forum</b> were held during the Spring Term.</p>

**Fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr ar 5 Mawrth, dosbarthwyd tocyn llyfr gwerth £1 i bob disgylbwyl. Trefnwyd amryw o weithgareddau a chystadlaethau i ddisgyblion Blwyddyn 7 + 8.**

**Daeth cynrychiolwyr o'r elusen 'Choose Life' i'r ysgol i gynnal gweithgareddau **atal troseddu** gyda disgyblion Blwyddyn 9.**

**Cafwyd cyflwyniad yn yr ysgol gan Fentor '**Sky Sports - school sports matter**' i ddisgyblion Cyngor Ysgol a Llysgenhadon yr ysgol.**

**Diwrnod Trwyn Coch (Comic Relief)** - cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr rhwng Tîm Adran Addysg Gorfforol v Tîm y Sêr ar ddydd Gwener, 13 Mawrth 2015, gydag Albert Owen, Rhun ap Iorwerth, merched Rownd a Rownd, Malcolm Allen a Mark Jones. Codwyd dros £150.

**As part of the World Book Day** celebrations on 5 March, all pupils received a £1 book token. Various activities and competitions were organised for Years 7 + 8 pupils.

**Representatives from the charity 'Choose Life' held crime prevention** activities at the school for Year 9 pupils.

**A presentation was given by a Mentor from '**Sky Sports - school sports matter**' to some pupils, School Council and Sports Ambassadors.**

**Red Nose Day (Comic Relief)** - a 5 -side football competition was held between the Physical Education Department team and Team of Stars on Friday, 13 March 2015, with Albert Owen, Rhun ap Iorwerth, ladies from 'Rownd a Rownd', Malcom Allen and Mark Jones. Over £150 was raised.

## YMWELIADAU ADDYSGOL / EDUCATIONAL VISITS

**Bu rai o ddisgyblion Blwyddyn 8 + 9 ar **gwrs Sgio** i Le Corbier yn **Ffrainc** am wythnos ym mis Ionawr.**

**Some Year 8+9 pupils went on a skiing course to Le Corbier in France** for a week in January.

**Bu rai disgyblion Blwyddyn 11 gymryd rhan mewn **Gweithdy Rhydychen Caergrawnt** yn Ysgol Eirias, Bae Colwyn yn ddiweddar.**

**Some Year 11 pupils took part in an Oxford Cambridge colleges workshop** recently at Ysgol Eirias, Colwyn Bay.

**Bu rai myfyrwyr Blwyddyn 12 gymryd rhan mewn **Gweithdy Rhydychen Caergrawnt** yn ddiweddar.**

**Some Year 12 students took part in a Magdalene College, Cambridge workshop** recently.

**Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 gymryd rhan mewn gweithdy celf gyda'r arlunydd **Luned Rhys Parri** yn y Galeri yng Nghaernarfon.**

**A group of Year 8 pupils took part in an art workshop with the artist Luned Rhys Parri** at the Galeri in Caernarfon.

**Aeth grŵp bach o ddisgyblion ymweld â'r **Amgueddfa Genedlaethol Gyfrifiadurol Parc Bletchley**.**

**A small group of pupils visited the National Museum of Computing Bletchley Park.**

**Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio'r Gymraeg i weld perfformiad o'r drdrama '**Y Twr**' yn y Galeri yng Nghaernarfon.**

**A group of Year 12 students studying Welsh went to see a performance of the play '**Y Twr**' at the Galeri in Caernarfon.**

**Trefnwyd **taith gwaith maes** ar gyfer myfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio **Daearyddiaeth**; buont yn edrych ar faterion trefol ym Manceinion.**

**A field trip was arranged for student studying Geography** in Year 12; they studied issues in urban areas in Manchester.

**Bu rai disgyblion yn **Clogfeinio** yng **Nghanolfan Wal Ddringo Indy, Llanfairpwll**, fel rhan o weithgaredd 5x60.**

**Some pupils went Bouldering at the Indy Climbing Wall, Llanfairpwll**, as part of the 5x60 activity.

**Cymerodd grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 11 ran mewn gweithgaredd '**Camu mlaen at lechyd**' ym Mangor.**

**A small group of pupils from Year 11 participated in the 'Step-up to Health' activity** in Bangor.

**Aeth rai disgyblion Blwyddyn 11 a 13 sy'n astudio Hanes ymweld â'r **Amgueddfa Rhyfel** ym Manceinion.**

**Some Year 11 and 13 pupils who study History visited the Imperial War Museum** in Manchester.

**Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10 sy'n astudio Addysg Grefyddol i weld perfformiad o'r ffilm 'Selma' yn Cineworld, Llandudno.**

**A group of Year 10 Religious Education pupils went to see a performance of the film 'Selma'** at Cineworld, Llandudno.

**Cymerodd grŵp bach o ddisgyblion Blwyddyn 10 a 12 ran mewn labordy cyfansoddi '**BBC Now**' yn Ysgol Tryfan ym Mangor.**

**A small group of pupils from Year 10 and 12 participated in a 'BBC Now' composing laboratory** at Ysgol Tryfan in Bangor.

**Mae rhai bechgyn Blwyddyn 7 + 8 sy'n cymryd rhan yn y rhaglen '**Premier League Reading Stars Cymru**' i hybu a gwella'u darllen ymweld â Llyfrgell Porthaethwy.**

**Some Year 7+8 boys who are taking part in the 'Premier League Reading Stars Cymru'** programme to promote and improve reading, visited Menai Bridge Library.

**Mynychodd nifer o fyfyrwyr Blwyddyn 12 weithdy **iechyd** ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar.**

**Some Year 12 students attended a workshop on health** at Bangor University recently.

Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio Hanes ymweld â'r <b>Archifdy</b> yn Llangefni, er mwyn paratoi ar gyfer ei <b>Phrosiect Rhyfel Byd Cyntaf</b> , a fydd yn cael ei harddangos yn yr Oriel Môn.	<b>A</b> group of Year 12 students who study History visited the <b>Archives</b> in Llangefni, to prepare for their <b>World War One Project</b> , which will be exhibited at Oriel Môn in the near future.
Aeth disgyblion o Flwyddyn 12 i gartref henoed <b>Glan Rhos</b> ym Mrynsiencyn i gynnal awr o adloniant cerddorol.	<b>A</b> group of Year 12 students visited <b>Glan Rhos</b> care home in Brynsiencyn to provide an hour's musical entertainment.
Aeth grŵp bach o fyfyrwyr Blwyddyn 13 sy'n astudio Saesneg i weld perfformiad o'r ddrama ' <b>Hamlet</b> ' yn Theatr Colwyn, Bae Colwyn.	<b>A</b> small group of Year 13 English students went to see a performance of ' <b>Hamlet</b> ' at the Colwyn Theatre, Colwyn Bay.
Bu grŵp bach o fyfyrwyr sy'n astudio Ffrangeg ymweld â <b>Brussels</b> am 4 diwrnod, gan gynnwys y Senedd Ewropeaidd.	<b>A</b> small group of students studying French visited <b>Brussels</b> for 4 days, including the European Parliament.
Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 11 gymryd rhan mewn gweithdy celf gyda'r arlunydd <b>Luned Rhys Parri</b> yn Oriel Môn yn Llangefni.	<b>A</b> group of Year 11 pupils took part in an art workshop with the artist <b>Luned Rhys Parri</b> at Oriel Môn in Llangefni.
Bu myfyrwyr sy'n astudio <b>Daearyddiaeth</b> ym Mlwyddyn 13 yn ymweld â <b>Môn Hydroponics</b> ar fferm Cae Gwyn, Carmel, Llanerchymedd.	Students studying <b>Geography</b> in Year 13 visited <b>Môn Hydroponics</b> at Cae Gwyn Farm, Carmel, Llanerchymedd.
Aeth rai myfyrwyr Blwyddyn 13 sy'n astudio <b>Addysg Grefyddol</b> ymweld â chymunedau Iddewig yn Llundain.	Some Year 13 students who study <b>Religious Education</b> visited Jewish communities in London.

## LLWYDDIANNAU/ SUCCESSES

Cafwyd llwyddiant ym myd chwaraeon yn ystod tymor yr Hydref.	Teams and individuals celebrated <b>success in various sports</b> during the Autumn term.
Llongyfarchiadau i <b>Daniel Blight</b> a <b>Rowan Edwards</b> Blwyddyn 13 a ddoth yn 7fed allan o 70 ym Mhencampwriaeth Hwylio Ewrop.	<b>Congratulations to Daniel Blight and Rowan Edwards</b> Year 13 who came 7th out of 70 in the European Sailing Championships.
Llongyfarchiadau i <b>Joe Anderson</b> , Blwyddyn 12 ar dderbyn Gwobr Rhagoriaeth (Excellence Award) gan <b>Gymdeithas Frenhinol Daearyddiaeth Prydain</b> am fod yn un o'r 10 disgybl a gafodd y marc uchaf mewn TGAU Daearyddiaeth yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr.	<b>Congratulations to Joe Anderson</b> , Year 12 on winning an Excellence in Geography Award by the <b>Royal Geographical Society</b> for receiving the highest GCSE marks throughout Britain last Summer.
Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol am eu llwyddiannau yn <b>Athletau dan Do Môn</b> yn ddiweddar.	Congratulations to pupils of the school on their success at the <b>Anglesey Indoor Athletics</b> competition.
Llongyfarchiadau i <b>Ffion Elin Davies</b> , Blwyddyn 12 a <b>Siwan Hedd Mason</b> Blwyddyn 9 ar gael eu dewis i fod yng nghynhyrchiad ' <b>Les Misérables</b> ' yng Nghaerdydd.	<b>Congratulations to Ffion Elin Davies, Year 12 and Siwan Hedd Mason</b> Year 9 who have been chosen to be in the production of ' <b>Les Misérables</b> ' in Cardiff.
Bu amryw ddisgyblion yn llwyddiannus yn <b>Eisteddfod Sir yr Urdd</b> , a byddent nawr yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili ddiweddu Mai.	<b>A</b> few pupils were successful in the <b>County Urdd Eisteddfod</b> , and will now represent the county at the Urdd's National Eisteddfod in Caerphilly end of May.
Llongyfarchiadau i rai disgyblion Blwyddyn 9-11 ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth <b>Clogfeinio Ysgolion Uwchradd Gogledd Cymru</b> yn ddiweddar. Enillodd Erin Maloney, Blwyddyn 8 cystadleuaeth unigol gyda sgôr uchaf y genethod, a daeth Osian Milner Blwyddyn 8 a Mathew O'Hanlon Elms Blwyddyn 11 yn 3ydd. Daeth yr ysgol yn 2ail drwy'r gogledd.	Congratulations to some Year 9-11 pupils on their success at the North Wales <b>Secondary Schools Bouldering</b> competition recently. Erin Maloney in Year 8 won the individual competition with the highest girls score, and Osian Milner Year 8 and Mathew O'Hanlon Elms Year 11 came 3rd. The school came 2nd overall.
Llongyfarchiadau i dimau bechgyn a genethod yr ysgol a fu'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth <b>Badminton 5x60Gogledd Cymru</b> yn ddiweddar. Daethant yn 2ail.	<b>Congratulations to the school's girls and boys teams that were successful in a 5x60 Badminton North Wales finals competition recently. They came 2nd.</b>

Llongyfarchiadau i **Elan Gilford Blwyddyn 11** ar gael ei dewis i fod yn llysgennad Chwaraeon Cymru (platinwm), am wrifoddoli gyda'r cynllun 5x60 ac yn helpu clybiau cymunedol yr Urdd. Hefyd, enillodd wobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn drwy Ogledd Cymru, ac wedi dod yn 2ail drwy Gymru gyda gwobrau Dewi Sant. Mae hefyd, wedi hi fyny am wobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn gyda Sky Sports Living for Sports; bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi, 23 Mawrth.

Llongyfarchiadau i Pippa Scourse a berfformiodd gyda'r band pres byd enwog **Black Dyke** yn ddiweddar. Cafodd Pippa wahoddiad i berfformio gyda'r band yn dilyn ei llwyddiant ym Mlackpool gyda band leuenctid Biwmares yn y British Youth Entertainment Championships. Cipiodd Pippa y wobr fel '**Unawdydd Rhagorol**' am yr ail flwyddyn yn olynol.

Bu'r band **Madarch** elwa o weithio gydag aelodau o'r band 'Candelas' a'r uchafbwyt oedd cael perfformio yn Galeri, Caernarfon. Mae'n braf gweld yr hogia yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu fel band. Daliwch ati Cian, Guto, Ciaran, Harry a Deio.

Llongyfarchiadau i **Luc Sharrock Blwyddyn 8** am gael ei ddewis i hwyliau i dîm Cymru yn yr adran 'Topper'

Yn ddiweddar, bu rhai o ddisgyblion blwyddyn 12 ac 13 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth **UK Maths Challenge**. Llongyfarchiadau mawr i: Caroline Zhu, Ioan Bebb, Daniel Blight, Andrew Ford, Joe Anderson a Jamil Triaa, ar ennill dystysgrif yn y gystadleuaeth.

Yn dilyn ei llwyddiant yn y gystadleuaeth, enillodd Caroline le yn rownd gyntaf y gystadleuaeth **Olympiad Prydeinig**. Roedd ei chanlyniad yn arbennig o dda ac o'r herwydd mi fydd yn cystadlu yn yr ail rownd diwedd Ionawr.

Llongyfarchiadau i **Rhys Eckley Blwyddyn 7** am fod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth **Jiwdio**. Mae Rhys wedi curo'r fedal aur dair gwaith yn olynol ac wedi cael ei wahodd i fod yn rhan o **Sgwad Cymru** yn 2015.

Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 10 a Nicolas Mowll o flwyddyn 8 wedi derbyn **bathodyn gwyrdd 'Blue Peter'** am edrych ar ôl yr amgylchedd.

Llongyfarchiadau i **Cai Roberts Blwyddyn 9** am fod yn llwyddiannus mewn cystadlaethau trawsgwlad: -  
Tim Ysgolion Cymru (Eryri) – Arian  
Tim Rhanbarth Gogledd Cymru – Aur  
Tim Trawsgwlad Cymru – Aur

Mae'r disgyblion canlynol wedi ennill **ysgoloriaethau** i astudio ym **Mhrifysgol Bangor**, sef Stephanie Booth a Cai Williams.

Congratulations to **Elan Gilford Year 11** on being chosen as Platinum Wales Sports Ambassador for volunteering with the 5x60 project and helping with Urdd community clubs. Also, she has won North Wales Volunteer of the Year award, and came 2nd through Wales at the St David's Awards. She also, has been shortlisted for the award Sky Sports Living for Sports Volunteer of the Year; the result will be announced 23 March.

Congratulations to **Pippa Scourse** on her performance with the world famous **Black Dyke** brass band recently. Pippa was invited to perform with the band following her recent success in Blackpool with the Beaumaris Junior Brass Band at the British Youth Entertainment Championships. Pippa was awarded '**Exceptional Soloist**' for the second year running.

The band **Madarch** gained experience by working with the band 'Candelas' and the highlight was to perform at the Galeri in Caernarfon. It is a delight to see the boys taking opportunities to develop as band. Well done Cian, Guto, Ciaran, Harry and Deio.

Congratulations to **Luc Sharrock** Year 8 who has been selected to sail for the Welsh team in the 'Topper' section.

Recently, some Year 12 and 13 students took part in the **UK Maths Challenge** competition. Congratulations to: Caroline Zhu, Ioan Bebb, Daniel Blight, Andrew Ford, Joe Anderson and Jamil Triaa, on winning certificates in the competition.

Following her success in the competition, Caroline won a place in the first round of the **British Olympiad** competition. Her result was exceptionally good and will now compete in the second round end of January.

Congratulations to Rhys Eckley, Year 7 on being successful in a **judo** competition. Rhys has won the medal three successive times and has been invited to be part of the **Welsh Squad** in 2015.

A group of Year 10 pupils and Nicolas Mowll in Year 8 have been awarded **green 'Blue Peter' badges** for their work looking after the environment.

Congratulations to **Cai Roberts** Year 9 for being successful in cross-country competitions:-  
Welsh Schools team (Eryri) – Silver  
North Wales Regional Team - Gold  
Welsh Cross-Country Team - Gold

The following pupils have won **scholarships** to study at **Bangor University**: Stephanie Booth and Cai Williams.

## ELUSENNAU A GEFNOGWYD / CHARITIES SUPPORTED

Elusennau a gefnogwyd yn ystod y tymor yma/Charities supported this term:

Achub y Plant/Save the Children - **£488.72**

NSPCC - **£120.32**

Tŷ Gobaith/Hope House - **£1011.68**

Fairtrade Foundartion - **£129.64**

NSPCC - **£75.71**

Marie Curie Cancer Care (Apêl Daffodils) - **£66.65**

British Heart Foundation - **£282.64**

Readathon - **£1210.84**

Awyr Las - **£1287**

## CLWB CANT

### ONE HUNDRED CLUB

#### Enillwyr Mis Chwefror 2015/ February 2015 Winners

Ms Tracy Williams	1	£26.50
-------------------	---	--------

#### Enillwyr Mis Mawrth 2015 / March 2015 Winners

Mr David Cowley	43	£26.50
-----------------	----	--------

#### Enillwyr Mis Ebrill 2015 / April 2015 Winners

Miss Emma Stevenson	31	£26.50
---------------------	----	--------

**Cafwyd llwyddiant arbennig mewn amrywiol gystadlaethau yn Eisteddfod Sir yr Urdd.** Bydd nifer o ddisgyblion yn mynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol a'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili, ddiwedd Mai.

Ysgol David Hughes was very successful in various competitions in the regional **Urdd Eisteddfod**. A number of pupils will now go on to represent the school and the county in the Urdd National Eisteddfod in Caerphilly end of May.

Dyma'r canlyniadau/The results:	
Unawd Merched/Girls Solo Bl/Yr 7-9	2. Siwan Hedd Mason
Unawd Bechgyn/Boys Solo Bl/Yr 7-9	1. Aaron Heald
Unawd Merched Bl 10 a dan 19 oed/ Girls Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Ffion Elin Davies
Unawd Bechgyn Bl 10 a dan 19 oed/ Boys Solo Yr 10 and under 19yrs old	3. Rhys Last
Ensemble Lleisiol Bl 13 ac iau/ Vocal Ensemble Yr 13 and under	1. Ensemble Ysgol David Hughes (Cadi Sion, Manon Fflur, Ffion Medi, Ffion Elin, Ffion Wynn a Manon Haf)
Cyflwyno Alaw Werin Unigol/Folk Song Solo Bl/Yr 7-9	1. Siwan Hedd Mason
Unawd Chwythbrennau/Wind Solo Bl/Yr 7-9	2. Mared Jones 3. Katie Wood
Unawd Piano/Piano Solo Bl/Yr 7-9	1. Siwan Hedd Mason
Unawd Pres/Brass Solo Bl/Yr 7-9	1. Ifan Wyn Erfyl Jones 2. Erin Maloney 3. Arwyn Foulkes
Unawd Telyn/Harp Solo Bl/Yr 7-9	1. Catrin Edith Parry
Ensemble Bl/Yr 7-9	1. Ensemble Ysgol David Hughes (Parti Mared)
Unawd Cerdd Dant Bl 7-9/ Cerdd Dant Yr 7 – 9	1. Siwan Hedd Mason
Deuawd Cerdd Dant Bl 10 a dan 19 oed/ Cerdd Dant Duet Yr 10 and under 19yrs old	2. Ffion Elin a Cadi Sion
Llefaru Unigol Bl7-9/ Recitation Solo Yr 7-9	2. Ania Moore
Llefaru Unigol Bl 10 a dan 19 oed / Recitation Solo Yr 10 and under 19yrs old	1. Lois Angharad Williams
Gwaith Lluniadu 2D Bl 7-9/ 2D Drawing Work Yr 7-9	1. Begw Anwyl
Gwaith Creadigol 3D Bl 7-9/ 3D Creative Work Yr 7-9	1. Cadi Maple ac Elain Gwynedd

